



Polisi Amgylcheddol Grŵp Tai Wales & West

Mae Grŵp Tai Wales & West (GTWW) yn cynnwys Cymdeithas Tai Wales & West, Castell Ventures Ltd a Cambria Maintenance Ltd. Tai Wales & West (TWW) yw un o'r cymdeithasau tai mwyaf yng Nghymru. Mae'n rheoli dros 12,000 eiddo ar draws Cymru ac yn darparu cartrefi a gwasanaethau i dros 22,000 o bobl. Rheolir mwyafrif yr eiddo dan drefniant rhentu, ac er bod cyfran fwyaf yr eiddo yn cynnig llety 'anghenion cyffredinol', datblygwyd tua un o bob tri ar gyfer pobl hŷn a phobl sydd ag anghenion gofal a chymorth yn benodol. Mae Castell Ventures Ltd yn darparu gwasanaethau gofal a chymorth, arlwygo a glanhau i gwsmeriaid TWW a chwsmeriaid allanol. Mae Cambria Maintenance Ltd (Cambria) yn gwneud gwaith trwsio, cynnal a chadw a gwelliannau yn holl gartrefi TWW.

Mae TWW yn sefydliad dielw gyda statws elusennol, sy'n gweithredu ar draws Cymru. Lleolir y staff gerllaw cynlluniau a chwsmeriaid er mwyn sicrhau gwasanaeth mwy effeithiol.

Mae GTWW yn cyflogi dros 800 o bobl mewn lleoliadau ar draws Cymru. Mae tua hanner y staff yn darparu gwasanaethau gan gweithio mewn cynlluniau tai ac mae'r gweddill yn gweithio'n hyblyg o'i cartrefi ac o swyddfeydd yng Nghaerdydd (Tŷ'r Bwa a Gwynllŵg), Gogledd Cymru (Tŷ Draig) a Gorllewin Cymru (Cwrt y Llan). Mae'r polisi hwn yn berthnasol i'r bedair swyddfa.

Mae prif effeithiau amgylcheddol y Grŵp yn cynnwys defnyddio ynni a deunyddiau crai, gwaredu gwastraff, cludo cyflogeion, rhedeg fflyd o gerbydau, defnyddio adeiladau storio a defnyddio contractwyr adeiladu a chynnal a chadw.

Mae GTWW yn ymrwmo i ddiogelu'r amgylchedd ac mae'n cydymffurfio â rhwymedigaethau cydymffurfiaeth. Trwy ddangos gwelliant amgylcheddol parhaus, bydd y Grŵp yn:

- Atal llygredd lle bynnag y bo modd
- Defnyddio cyn lleied o ynni a dŵr ag y bo modd
- Cynhyrchu cyn lleied o wastraff ag y bo modd ac ailgylchu deunyddiau gwastraff pryd bynnag y bo hynny'n ymarferol
- Addysgu a chymell pob cyflogai a gwirfoddolwr i weithio mewn ffordd gyfrifol o ran yr amgylchedd
- Ymrwmo i gyrraedd safonau datblygu newydd Llywodraeth Cymru yn unol â'u nod 'garbon sero-net erbyn 2050'
- Cael cyswllt gyda chontractwyr er mwyn ceisio lleihau eu heffeithiau amgylcheddol
- Gosod a chynnal Systemau Rheoli Amgylcheddol priodol

Bydd y polisi amgylcheddol hwn yn destun adolygiad blynyddol, a chaiff ei gyfleu i'r holl staff a bydd ar gael i'r holl bartïon eraill sydd â diddordeb.

Cymeradwywyd gan:

Anne Hinchey
Prif Weithredwr y Grŵp

12 Hydref 2021